**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

**Medi 29ain 2025**

**Cyfarfod Hybrid (Aml-leoliad)**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards

**Y Cynghorwyr:**
Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts

**Swyddogion:** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Elan Mared Lloyd (Swyddog Cynllunio), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Arsylwi: Dafydd Jones (Cyfreithiwr)

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Huw Rowlands

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 29ain o Fedi 2025 |

---

**PWNC: Eitem 5.1 Cais Rhif C25/0503/14/DT**
**STRADE, 65 CAE GWYN, CAERNARFON, GWYNEDD**

**Dymchwel ystafell haul bresennol a chodi estyniad newydd i'r cefn**

---

**PENDERFYNIAD: Caniatáu Gydag Amodau**

**1 Pum Mlynedd i ddechrau'r gwaith**
**2 Unol a chynlluniau**
**3 Unol a'r datganiad seilwaith gwyrdd**

Nodyn Gwybodaeth:
Dŵr Cymru

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 13 |
| Yn erbyn | 0 |
| Atal | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 29ain o Fedi 2025 |

---

**PWNC: Eitem 5.2 Cais Rhif C25/0202/40/LL**
**TIR YN Y FFÔR, PWLLHELI**

Cais newid defnydd ar gyfer gosod 12 Caban Gwyliau ar dir yn Y Ffôr, Pwllheli

---

**PENDERFYNIAD: Gwrthod**
**Rhesymau**

1. **Byddai'r safle cabanau a'r gwaith cysylltiedig, oherwydd eu nifer, lleoliad, dyluniad, gosodiad agwedd yn y dirwedd, cynnydd yn yr arwynebedd lleiniau caled, yn arwain at nodwedd amlwg ac ymwthiol o fewn cefn gwlad agored gan gael effaith niweidiol ar y dirwedd a mwynderau gweledol yr ardal wledig ynghyd ac arwain tuag at ormodedd o safleoedd parhaol yn yr ardal leol. Mae'r bwriad felly yn groes i feini prawf 1.i a ii. o bolisi TWR 3 a pholisi PCYFF 3, o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) a Chanllaw Cynllunio Atodol: Llety Gwyliau.**

2. **Byddai graddfa'r bwriad yn creu symudiadau gormodol ar hyd y ffordd sirol gyfochrog a chynnydd mewn gweithgareddau gan greu sŵn ac aflonyddwch er niwed i amwynder preswylwyr lleol. Felly, ystyrir bod y cynnig yn groes i bolisi PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017).**

3. **Nid oes gwybodaeth ddigonol ar ffurf manylion am leoliad a maint y maes draenio ynghyd â chanlyniadau profion trylifiad mewn cyswllt â'r System Trin Carthffosiaeth bwriedig. Mae'r bwriad felly yn groes i ofynion polisi ISA 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) sy'n sicrhau darpariaeth isadeiledd digonol.**

4. **Nid oes gwybodaeth ddigonol sy'n cynnwys arolwg geoffisegol wedi ei chyflwyno fel rhan o'r cais, ac felly ni ellir dod i gasgliad ynglŷn â chydymffurfiaeth y bwriad gyda pholisi AT4 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017) sy'n diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad.**

---

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O blaid | 11 |
| Yn erbyn | 1 |
| Atal | 1 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.